***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 1478

# Gorchymyn Parth Arddangos Morlais 2021

## RHAN 3

### Caffael a Meddiannu Tir

*Pwerau caffael*

**Pŵer i gaffael hawliau newydd a gosod cyfamodau cyfyngol**

**23.**—(1) Caiff yr ymgymerwr gaffael yn orfodol y cyfryw hawddfreintiau neu hawliau eraill dros dir y cyfeirir ato yn erthygl 22 (pŵer i gaffael tir) ag sy'n ofynnol at unrhyw ddiben y gellir caffael y tir hwnnw ar ei gyfer o dan y ddarpariaeth honno, drwy eu creu yn ogystal â thrwy gaffael hawddfreintiau neu hawliau eraill sydd eisoes yn bodoli.

(2) Yn achos y tir a bennir yng ngholofnau (1) a (2) o'r tabl yn Rhan 1 o Atodlen 6 (tir na ellir ond caffael hawliau newydd ynddo) mae pwerau caffael gorfodol yr ymgymerwr wedi'i gyfyngu i gaffael y cyfryw hawliau newydd ag sy'n ofynnol at y diben a bennir mewn perthynas â'r tir hwnnw yng ngholofn (3) o'r tabl hwnnw.

(3) Yn achos y tir a bennir yng ngholofnau (1) a (2) o'r tabl yn Rhan 2 (tir y gellir gosod cyfamodau cyfyngol drosto) o Atodlen 6 mae pŵer yr ymgymerwr o dan erthygl 22 (pŵer i gaffael tir) hefyd yn cynnwys pŵer i osod cyfamodau cyfyngol dros y tir at y dibenion a bennir mewn perthynas â'r tir yng ngholofn (3) o'r tabl.

(4) Yn ddarostyngedig i—

(a) Atodlen 2A (gwrth-hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol prynu tir nad yw mewn hysbysiad i drafod telerau) i Ddeddf 1965 (fel y'i hamnewidiwyd gan baragraff 5(7) o Atodlen 7 (addasu deddfiadau digolledu a phrynu gorfodol er mwyn creu hawliau newydd)); a

(b) Atodlen A1 i Ddeddf 1981 (fel y'i haddaswyd gan baragraff 7(7) o Atodlen 7),

pan fo'r ymgymerwr yn caffael hawl dros dir neu'n gosod cyfamod cyfyngol o dan baragraff (1), (2) neu (3), nid yw'n ofynnol i'r ymgymerwr gaffael mwy o fuddiant yn y tir hwnnw.

(5) Mae Atodlen 7 yn cael effaith at ddiben addasu'r deddfiadau sy'n ymwneud â digolledu, a darpariaethau Deddf 1965 a Deddf 1981 wrth eu cymhwyso mewn perthynas â chaffael yn orfodol o dan yr erthygl hon hawl dros dir drwy greu hawl newydd neu osod cyfamod cyfyngol.